COFNODION CYNGOR CYMUNED RHOSYBOL
Cyfarfod Nos Lun 7fed Chwefror 2022 am 7yh.

1. Cyfarfod yn ganolfan Rhosybol a hefyd drwy Rhithwith drwy galwad fideo.

2. Presennol
   Rhian hayes (Cadeirydd), Wendy Morris Griffiths, Gwynfor Owen, Gwilym Morris, Aled Morris Jones

3. Ymddiheuriadau
   Carol Jones

4. Datgan Diddordeb
   Eitem 10 Cronfa Trysglwyn – WMG a GM

5. Darllen a cymeradwyo cofnodion cyfarfod 8fed Tachwedd 2021
   GM yn cynnig WMG yn eilio fod y cofnodion yn gywir

6. **Materion yn codi**

i. Cyllideb Cyngor Cymuned Rhosybol 2022/23
   CSYM – Trafod Praesept 2022/23
   Er gwybodaeth
   Praesept 2020/21 £8000
   Praesept 2021/22 £8000

   Cyfrifon 2021/22 – gweler Adroddiad 'Cyllideb 2021/22'

   Angen cysidro:

   a) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
      - Mae lwfans o £150 ar gael i bob aelod tuag at gostau
      - Bydd rhaid i'r clerc drefnu'r taliadau
      - Gall unigolion wrthod taliad yn rhannol neu'n llwyr os yw'n dymuno, ac bydd rhaid gwneud hyn yn ysgrifennedig i'r clerc.

   b) Costau Etholiadau Mai 2022
      CSYM yn rhagweld costau o £2000 I cynghorau cymunedol gyda llai na 2000 etholwyr

   c) Ad-daliad gan Gronfa Trysglwyn am 21/22 a hefyd 22/23?

   d) Lefel Praesept ar gyfer 2022/23

Penderfynwyd cadw'r praesept am 2022/22 yn £8,000 gan gysidro fod costau byw yn cynyddu i bawb fel arall.

Hefyd gwneud trosglywddiad o £1,500 o gronfa Trysglwyn i CCR am gostau gweinyddiaeth.

Arwyddo Dogfennau I CSYM

ii. Gor Yrru yn Pentref Rhosybol

Pryder wedi cael ei godi ynghlyn a for-yrru o fewn y pentref (ochr yn dod i fewn o lanerchymedd)
Pryder ynghlyn a tynnu allan o stad Garreg Wen neu o mynedfa tai cyfagos.
Mae'r Fan heddlu yn y pentref ar adegau ond mae pryder fod gor yrru arol pasio hwn drwy'r pentref.
Trigolion yn gofyn am gymorth gan CCR ynghlyn a os mae rhywbeth yn medru cael ei wneud:
e.e

- Newid lleoliad yr arwydd sydd yn goleuo yn gynt yn y pentref? (teimlo fod pobl dim ond yn cymeryd sylw o hwn ymlaen)
- Monitro faint o trafnidiaeth sydd yn defnyddio a gorryrru yn yr ardal (defnyddio'r weiren ar y lon)

AMJ am holi'r heddlu os gall rhywun ddod I'r cyfarfod nesaf

iii) Llythyrau yn gofyn am gymorth ariannol:

Capel Pengarnedd, Rhosgoch

Ail agor y capel arol cyfnod clow Covid-19, cost o £447.00 Cynnal a chadw, torri gwair a glanhau
AMJ yn cynnig talu, WMG yn eilio – o gronfa Trysglwyn

iv) Channel 4

Gwneud rhaglen ar ail wneud ty yn yr ardal ac angen caniatad i ffilmio yr ardal am 1 awr
n/a – cais am yr ardal anghywir

**7. Gwybodaeth**

a) Un Llais Cymru – plannu Coed a Pherllannau – Dros Microsoft Teams
10/02/22 18.30
11/02/22 14.00
Grŵp rhwydweithio llwyddiannus i drafod materion Amgylcheddol. Fforwm newydd, yn cyfarfod bob mis I drafod materion, polisïau a chyllid amgylcheddol a rhannu arfer a syniadau gorau.
Cofrestru gyda Un Llais Cymru am mynediad.

b) Jiwbilî Platinwm y Frenhines – Mehefin 2022
Yswiriant
Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol

AMJ yn cynnig rhoi hwn ar agenda mis Mawrth I drafod a hel mwy o wybodaeth.

c) Un Llais Cymru – Hyfforddiant ar gael ar-lein – Appendix A

d) Awel y Môr – Cylchlythyr 01.02.22

e) Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned 07.02.22 Zoom

f) CSYM – Sesiynau Briffio Arlein: byddwch yn Gynghorydd
Codi Ymwybyddaieth am sessiynau dros Zoom
10/02/22 18.00
17/02/22 18.00
Gwybodaeth ar gael **https://www.byddwchyngynghorydd.cymru/**

g) Llywodraeth Cymru – Ymghynghoriad Strategaeth Bwyd Cymru
https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy/newyddion-digwyddiadau/newyddion/arolwg-strategaeth-bwyd-cymunedol-cymru-2022

h) Cynllun Prentisiaethau Llywodraeth Cymru 2022
Mae Llywodraeth Cymru yn hysbysebu hyd at 50 cyfle prentisiaeth ym mis Mawrth. Mi fyddwn yn cysylltu â chi cyn bo hir gyda manylion pellach ar ble a sut i lenwi'ch cais
https://www.eventbrite.co.uk/e/candidate-information-session-apprenticeships-2022-tickets-243452843007

i) CSYM – Blaen Rhaglen Waith y Pwyllgor Gwaith Ionawr 2022
https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-Aelodau-Seneddol-ac-Aelodaur-Senedd/Blaen-Raglen-Waith-y-Pwyllgor-Gwaith.aspx
Nodir fod adolyiad ysgolion twrcwlyn wedi diflannu oddiar y blaen rhaglen waith.

**8. MATERION CYNLLUNIO**

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

HHP/2022/20
Tanrallt, Amlwch
Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu

FPL/2022/5
Coed-Goleu, Penysarn
Cais llawn ar gyfer newid defnydd adeiladau allanol i uned llety gwyliau ynghyd a'i addasu ac ehangu a gosod tanc septig

FPL/2022/3
Bodneithior, Llandyfrydog, Llanerchymedd
Cais llawn i godi sied ffrâm borth dur dros ddwy ardal o'r iard goncrit bresennol

**PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

- FPL/2021/335

Cwm Deri, Dulas
Cais llawn am ddiwygiadau i'r cynllun a gymeradwywyd yn flaenorol i gynnwys addasiadau ac estyniadau
Cytuno gyda amodau

- DAG/2022/1
  Melin Esgob, Llandyfrydog
  Cais i bennu os oes angen caniatâd blaenorol ar gyfer codi sied ffrâm porth 75 troedfedd x 60 troedfedd dros yr iard bresennol
  Cais llawn ddim ei angen

  FPL/2021/238
  Ty Capel Bethania, Rhosybol, Amlwch
  Cais llawn ar gyfer newid defnydd y Capel gwag i fod yn annedd
  Cytuno gyda amodau

9. **ADRODDIAD ARIANNOL A BILIAU**

10. **Unrhyw Fater Arall**

Trysglwyn:

Derbynir llythyr gan disgyblion Ysgol Rhosybol I gronfa Trwysglwyn

Cais am arian tuag at prosiect i wneud a brintio llyfrau i’w gwerthu.

Cynnig £400 gan RH a eilio gan GO

Cyfarfod Nesaf – 7fed Mawrth 2022